Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y ffordd y dylai cynghorau fynd ati i ddeall pa mor dda maen nhw'n gwneud a gwella eu hunain

## Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o ddogfen sy'n gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl am y **'Canllawiau Statudol Drafft - Perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau'.**

**Rhagfyr 2020**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Hawdd ei Ddeall

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bod geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.




Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifennu glas cyffredin. Gallwch edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 24**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni,** mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** LGPartnerships@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon....2**

**Cyflwyniad....4**

Ynglŷn â Rhan 6, Pennod 1 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)....5

**Canllawiau drafft. Perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau....10**

Pennod 1. Pam y mae ar gynghorau angen archwilio eu gwaith....10

Pennod 2. Mae ar gynghorau angen archwilio eu gwaith eu hunain..14

Pennod 3. Panel asesu perfformiad....16

Pennod 4. Archwiliadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru....20

Pennod 5. Rôl Gweinidogion Cymru....21

**Camau nesaf....23**

**Geiriau anodd....24**

# Cyflwyniad




Daeth deddf drafft newydd allan yng Nghymru yn 2019 oedd yn cael ei alw'n **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**.




Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â chanllawiau ar gyfer rhan o'r ddeddf drafft honno - **Rhan 6, Pennod 1**. Bwriad y canllawiau yw cefnogi cynghorau i ddilyn y ddeddf newydd.



Mae arnon ni eisiau i'r canllawiau fod yn ddefnyddiol i'r cynghorau. Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr ei fod yn rhoi cefnogaeth i gynghorau ddeall pa mor dda maen nhw'n gwneud a gwella eu hunain.



Fe hoffen ni wybod beth rydych **chi'n** feddwl am ein syniadau ar gyfer canllawiau **Rhan 6, Pennod 1**.



Darllenwch y ddogfen hon, ac yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.

# Ynglŷn â Rhan 6, Pennod 1 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Mae **Rhan 6, Pennod 1** yn dweud wrth gynghorau:



- beth y dylen nhw wneud er mwyn deall pa mor dda maen nhw'n gwneud
- beth sy'n cael ei ddisgwyl ganddyn nhw
- beth fydd pobl eraill yn ei wneud i helpu.



Mae'n rhaid i gynghorau feddwl am y canllawiau hyn. Os ydyn nhw'n dewis peidio â dilyn y canllawiau, mae'n rhaid bod ganddyn nhw resymau clir.



Dylai'r canllawiau gefnogi cynghorau. Bydd arnyn nhw angen gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r pethau sydd orau ar gyfer eu hardal.




Mae'r ddeddf yn dweud bod gan gynghorau ddyletswyddau i'w dilyn. Y dyletswyddau hyn yw:

**1. Dyletswydd i edrych pa mor dda y mae'n perfformio**

Er enghraifft, gwirio pethau fel:



- A yw'n cyflawni ei rôl mewn ffordd dda.



- A yw'n gofalu am ei **adnoddau** mewn ffordd dda.

Mae **adnoddau** yn bethau defnyddiol sydd gennym neu rydyn ni'n berchen arnyn nhw. Er enghraifft, adeiladau, cerbydau, gwybodaeth, arian a staff.



- A yw'n cael ei reoli a'i redeg yn dda.



**2. Dyletswydd i ofyn i bobl feddwl pa mor dda mae’n gwneud, bob blwyddyn**

Er enghraifft, siarad â’r cyhoedd a staff.




**3. Dyletswydd i ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn**

Bydd hyn ynglŷn â phethau fel y gwaith mae wedi’i wneud/ a pha mor dda y mae wedi gwneud y gwaith.



**4. Dyletswydd i drefnu panel o bobl i archwilio eu gwaith**

Mae’n rhaid i hyn fod o leiaf unwaith rhwng **etholiadau** cyngor.




**Etholiad** yw’r adeg pan fyddwch chi’n pleidleisio dros y bobl rydych chi am gael i’ch cynrychioli chi. Mae’n **etholiad** cyngor lleol pan fyddwch chi’n pleidleisio dros bobl i’ch cynrychioli chi ar eich cyngor lleol.

5. **Dyletswydd i ymateb i'r adroddiad y mae'r panel yn ei ysgrifennu am y cyngor.**



Mae'n rhaid i'r cyngor ddweud beth maen nhw'n mynd i'w wneud mewn ymateb i'r adroddiad.

**Ochr yn ochr â'r dyletswyddau hyn:**



- Gall yr Archwilydd Cyffredinol wneud archwiliadau arbennig ar gynghorau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn edrych sut y mae cyrff cyhoeddus yn trin eu harian.



- Gall **Gweinidogion Cymru** gefnogi cyngor neu ddweud wrtho beth i'w wneud os ydyn nhw'n teimlo nad yw'r cyngor yn gwneud ei waith yn dda.



Mae’r canllawiau drafft ar gyfer **Rhan 6, Pennod 1** wedi’u rhannu’n bum pennod.  Mae pob pennod yn rhoi mwy o wybodaeth am y dyletswyddau uchod. A rolau’r **Archwilydd Cyffredinol a Gweinidogion Cymru.**


Y ffordd y dylai cynghorau fynd ati i ddeall pa mor dda maen nhw’n gwneud a gwella eu hunain

Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl

Darllenwch weddill y ddogfen hon i gael gwybod beth mae’r canllawiau drafft yn ddweud ym mhob un o’r pum pennod.

# Canllawiau drafft. Perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau

## Pennod 1. Pam y mae ar gynghorau angen archwilio eu gwaith



Mae'n bwysig i gynghorau ddangos pa mor dda maen nhw'n gweithio, oherwydd bod pobl wedi pleidleisio drostyn nhw.




Mae ar y ddeddf newydd eisiau i gynghorau feddwl mwy ynghylch sut y gallan nhw newid y ffordd maen nhw'n gweithio er mwyn:




- cynllunio'n well




- a darparu gwasanaethau yn well.

**Mae cynghorau yn gyfrifol am:**



- Wneud archwiliadau ar eu gwaith. Ac ysgrifennu adroddiadau amdano.





- Cynllunio sut i wella eu gwaith.



- Cael panel o bobl i archwilio eu gwaith. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd o leiaf unwaith rhwng etholiadau cyngor.



- Cael cyngor gan gynghorau eraill, mudiadau, staff a'r cyhoedd ynghylch pa mor dda y mae'n gwneud.




Bydd mudiadau eraill yn cefnogi cynghorau ac yn darparu gwybodaeth ynghylch y ffordd y gallan nhw wella. Er enghraifft **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**.



Bydd mudiadau eraill yn archwilio gwaith cynghorau hefyd. Er enghraifft, **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Archwilio Cymru**.




Dylai pawb weithio gyda’i gilydd i wneud yn siŵr bod y cyngor yn gweithio’n dda.



Mae ar gynghorau angen defnyddio’r wybodaeth sy’n cael ei ddarparu gan fudiadau eraill i wella’r ffordd y mae’n gwneud pethau.

**Deddfau eraill**



Mae’r ddeddf newydd yn meddwl am y nodau o fewn **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**.



Mae’r nodau yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015** yn bwriadu gwella bywyd yng Nghymru ar gyfer pobl yn awr ac yn y dyfodol.



Mae ar gynghorau angen meddwl am y ddeddf bwysig hon wrth wneud penderfyniadau a chynllunio.




Dyletswydd arall, sydd i fod i gychwyn yn 2021, yw'r **ddyletswydd economaidd-gymdeithasol**.

**Mae'r ddyletswydd hon yn dweud y dylai'r cynghorau wneud yn siŵr:**



- bod pobl sydd â llai o arian yn cael eu trin yn deg a chyfartal



- nad yw'r penderfyniadau y maen nhw'n eu gwneud yn gwneud pobl yn waeth eu byd nag oedden nhw cynt.



Mae'r **ddyletswydd economaidd-gymdeithasol** am i'r cynghorau wneud gwell penderfyniadau ar gyfer pawb fel bo pawb yn gallu cyflawni'r un pethau.


# Pennod 2. Mae ar gynghorau angen archwilio eu gwaith eu hunain



Mae ar gyngor angen edrych sut mae'n perfformio a phenderfynu a oes arno angen gwneud yn well. Mae hyn yn cael ei alw'n **hunanasesiad**.



Mae'n rhaid iddo hefyd ofyn i bobl eraill beth maen nhw'n feddwl.




Mae ar y cyngor angen ysgrifennu **adroddiad** hunanasesiad i ddangos beth y mae wedi'i ddysgu.



Bydd yr adroddiad yn dweud pa newidiadau y bydd yn eu gwneud er mwyn gwella.



Mae'r hunanasesiad yn gyfle i gynghorau edrych pa mor dda y maen nhw'n gwneud a sut y gallan nhw wneud yn well.



Mae ar bob cyngor angen meddwl beth yw'r ffordd orau i wneud eu hunanasesiad.



Hefyd, gallai'r hunanasesiad ddefnyddio gwybodaeth o archwiliadau eraill y mae'r cyngor wedi'u gwneud ei hun. Er enghraifft, arolygon staff.



Gallai'r hunanasesiad hefyd ddefnyddio gwybodaeth o archwiliadau gafodd eu gwneud gan bobl eraill.  Er enghraifft Archwilydd Cyffredinol Cymru.



Mae'n rhaid iddo hefyd ofyn beth y mae pobl yn meddwl ynghylch beth mae'r cyngor yn ei wneud, bob blwyddyn.




Mae'n rhaid i bobl fedru dod o hyd i'r adroddiad hunanasesu a'i ddarllen o fewn pedair wythnos iddo gael ei ysgrifennu.

# Pennod 3. Panel asesu perfformiad



Mae'r **panel asesu perfformiad** yn grŵp o bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd i edrych pa mor dda y mae'r cyngor yn gwneud ei waith.



Ni fwriedir iddo fod fel arolygiad. Mae mwy fel cefnogi'r cyngor i fod y gorau y gall fod.



Dylai helpu i roi i'r cyngor olwg wahanol ar sut y mae'n gwneud.



Gall bob cyngor benderfynu sut i wneud panel asesu perfformiad. Cyn belled â'i fod yn dilyn y rheolau sydd wedi'u hysgrifennu yn y ddeddf.



Bydd ar y cyngor angen dod o hyd i grŵp o bobl i fod yn rhan o'r panel asesu perfformiad.



Bydd arnyn nhw angen penderfynu wedyn beth y bydd y panel yn ei wneud.



Bydd ar y panel angen gwneud adolygiad a siarad am y pethau y daethon nhw i wybod.




Dylai'r bobl ar y panel gael llawer o wahanol fedrau.




**Ni ddylai'r** bobl ar y panel weithio i'r cyngor, na theimlo na allen nhw fod yn gwbl onest ynglŷn â pha mor dda y mae'r cyngor yn gwneud am ryw reswm.



Er enghraifft, oherwydd eu bod yn arfer gweithio yno, neu bod ganddyn nhw fusnes sy'n dibynnu ar y cyngor mewn rhyw ffordd.

**Mae ar y panel angen cael:**



- Cadeirydd. Mae hwn yn rhywun fydd yn arwain y grŵp.



- Rhywun o’r sector cyhoeddus neu fudiad arall fel elusen.



- Prif swyddog o lywodraeth leol.



- Cynghorydd lleol.



- Gall pobl eraill fod ar y panel hefyd, os bydd y cyngor yn dewis hynny.

**Bydd y panel yn edrych**



- Pa mor dda mae'r cyngor yn gwneud y pethau y mae i fod i'w gwneud.
- Pa mor dda y mae'n defnyddio ei adnoddau.
- A yw'r cyngor yn cael ei redeg yn iawn.



Dylai'r panel gael barn pobl eraill. Er enghraifft, y cyhoedd a staff y cyngor.



Bydd y panel yn ysgrifennu adroddiad am y pethau maen nhw'n dod i wybod amdanyn nhw. Bydd yn dweud beth sydd ar y cyngor angen ei wneud i wella.




Mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi'r adroddiad. Ac ymateb iddo.


# Pennod 4. Archwiliadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru



Gall **Archwilydd Cyffredinol Cymru** wneud archwiliad arbennig o'r cyngor os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn meddwl nad yw'r cyngor yn gwneud ei rôl yn ddigon da.



Gall Gweinidogion Cymru ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol wneud archwiliad arbennig.




Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ysgrifennu adroddiad yn dweud beth mae wedi dod i wybod, a beth mae'n meddwl sydd ar y cyngor angen ei wneud i wella.



Mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r adroddiad fel bo pawb yn gallu dod o hyd iddo a'i ddarllen.



Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i'r adroddiad. Mae'n rhaid iddo ddweud beth mae'n mynd i'w wneud. Mae'n rhaid i ymateb y cyhoedd gael ei gyhoeddi hefyd fel bo pawb yn medru ei ddarllen.

# Pennod 5. Rôl Gweinidogion Cymru



Gall Gweinidogion Cymru gefnogi cynghorau i ddelio â materion ynglŷn â pha mor dda maen nhw'n gwneud.



Hefyd, gall gyngor ofyn i weinidog am gefnogaeth.



Gall Gweinidogion Cymru ddweud wrth gyngor beth i'w wneud. Gallan nhw wneud hyn dim ond os ydyn nhw:


- wedi ceisio cefnogi'r cyngor



- wedi siarad â phawb maen nhw'n meddwl sy'n bwysig yn y sefyllfa
- wedi dweud wrth y cyngor y byddan nhw'n dweud wrthyn nhw beth i'w wneud.



Er hynny, os yw'r Gweinidog yn meddwl ei bod yn fater o bwys does dim rhaid iddo ddilyn y camau hyn.



Mae'n rhaid i'r cyngor adael i'r Gweinidog ddefnyddio ei adeiladau a gweld unrhyw wybodaeth bwysig sydd ei hangen arno.

# Camau nesaf




**Dylai Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)** ddod yn ddeddf swyddogol yn Ionawr 2021.




Bydd y dyletswyddau y mae'r ddeddf hon yn eu gosod ar gynghorau yn **Rhan 6, Pennod 1** yn cychwyn o'r 1 Ebrill 2021.




Ni fydd y dyletswyddau sy'n ymwneud â'r panel asesu perfformiad yn gwneud hyn. Bydd y rhain yn cychwyn ym mis Mai 2022.



Ar ôl yr ymgynghoriad hwn, fe hoffen ni orffen y canllawiau a'u hanfon at y cynghorau yn barod ar gyfer yr adeg pan fydd yn rhaid iddyn nhw ddilyn y ddeddf newydd.

# Geiriau anodd

## Adnoddau

Mae adnoddau yn bethau defnyddiol sydd gennym neu rydyn ni'n berchen arnyn nhw. Er enghraifft, adeiladau, cerbydau, gwybodaeth, arian a staff.

## Etholiad

Etholiad yw'r adeg pan fyddwch chi'n pleidleisio dros y bobl rydych chi am gael i'ch cynrychioli chi. Mae'n etholiad cyngor lleol pan fyddwch chi'n pleidleisio dros bobl i'ch cynrychioli chi ar eich cyngor lleol.

## Hunanasesiad

Mae ar gyngor angen edrych sut mae'n perfformio a phenderfynu a oes arno angen gwneud yn well. Mae hyn yn cael ei alw'n hunanasesiad.

## Panel asesu perfformiad

Mae'r panel asesu perfformiad yn grŵp o bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd i edrych pa mor dda y mae'r cyngor yn gwneud ei waith.